❖ Meddwl am y Nadolig

Meddyliwn am y pethau
nad ânt heibio
pan fo'r gelynion wrth y pyrth
a Herod o hyd ar dramp.

Am y bugeiliaid syml
ar fryniau Galilea,
a glywsant y proclamasiwn
a berthyn i'r oesoedd.

Am y doethion
a gawsant eu bodloni
wedi 'nabod yr Eneiniog
unwaith ac am byth.

Am wirionedd
yng nghadw gyda Duw:
Goleuni yn ymlid tywyllwch,
Tywysog tangnefedd mewn stabal
heb orfod cloi'r un drws.